

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Elin Jones AM
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

20 Mawrth 2019

Annwyl Elin,

Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) 2019

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y bydd Adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyflwyno'r rheol y bydd offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod, yn cael ei thorri er mwyn gallu cyflwyno Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) 2019. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol i chi er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau yn atodi ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad Gweithredu y Comisiwn (EU) 2015/262 o ran y dulliau adnabod equidae yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau yn cywiro Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 i ddiwygio un cyfeiriad at 'berson cyfrifol' i 'berchennog'.

Cefndir

Cafodd Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") eu llunio ar 15 Ionawr 2019 a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Ionawr 2019. Ar 30 Ionawr 2019 gwelodd CLAC un pwynt ar gyfer cofnodi o dan Reoliad Sefydlog 21.2(v) (bod ei ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol yn galw am eglurhad pellach) o ran Rheoliadau 2019. Cytunodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y byddai Offeryn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Statudol byr ar gyfer diwygio yn cael ei ddrafftio oedd yn disodli 'person cyfrifol' yn rheoliad 8 Rheoliadau 2019 ac yn mewnosod 'perchennog'. Nid oedd modd drafftio, cyfieithu a gwirio cyfwerthedd Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) 2019 tan wedi'r 8fed Mawrth 2019, sy'n hwyrach na'r dyddiad cau o 7fed Mawrth ar gyfer llunio a chyflwyno'r Rheoliadau 21 niwrnod cyn i'r DU ymadael â'r UE.

Bydd torri'r rheol 21 niwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym cyn 29ain Mawrth pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ac ar y dyddiad y bydd Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 hefyd yn destun newid gan y Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau yn gweithio'n effeithiol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae'n angenrheidiol felly, a gellir cyfiawnhau torri'r rheol 21 niwrnod yn yr achos hwn.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod, gyda'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Siambr.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.